Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council

# Stryd Fawr Prestatyn Cynllun Gwella'r Parth Cyhoeddus

# Dyluniad Cysyniadol Adroddiad Cryno o'r Adborth

**Rhagfyr 2025**

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

**Cynllun o Welliannau i Barth Cyhoeddus Stryd Fawr Prestatyn**
**Dyluniad cysyniadol - Adroddiad Cryno o’r Adborth**

# Cynnwys

Pwrpas yr adroddiad hwn .......... 3

Dadansoddi’r adborth i’r dyluniad cysyniadol .......... 3

Data meintiol .......... 3

Data ansoddol .......... 4

Sesiwn Galw Heibio, Sinema Scala .......... 7

Y Camau Nesaf .......... 7

**Cynllun o Welliannau i Barth Cyhoeddus Stryd Fawr Prestatyn**
**Dyluniad cysyniadol - Adroddiad Cryno o'r Adborth**

## Pwrpas yr adroddiad hwn

Pwrpas yr adroddiad hwn yw crynhoi'r adborth a gafwyd o ran dyluniad cysyniadol y Cynllun Gwelliannau i Stryd Fawr Prestatyn. Ni fydd yr adroddiad ei hun yn gwneud unrhyw argymhellion ynghylch y cynigion cyffredinol ond caiff safbwyntiau budd-ddeiliaid a chymuned ehangach Prestatyn eu hystyried wrth lunio dyluniad manwl y cynllun.

## Dadansoddi'r adborth i'r dyluniad cysyniadol

Rhannodd y Cyngor y dyluniad ar-lein; cyflwynodd luniadau a delweddau mewn sesiwn galw heibio yn Sinema Scala, a rhannodd luniadau yn Llyfrgell Prestatyn rhwng 15 Medi a 31 Hydref 2025. Cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad cyhoeddus hefyd i gasglu adborth gan y cyhoedd ynglŷn â'r hyn yr hoffent ei weld yn ardal ganolog y Stryd Fawr. Gwnaed 85 o ymatebion yn uniongyrchol drwy dudalen we Ymgynghoriadau Sir Ddinbych neu drwy holiaduron ar bapur.

## Data meintiol

Casglwyd data i'n helpu i ddeall beth y dylem ganolbwyntio arno fwyaf yn ardal ganolog Stryd Fawr Prestatyn.

| **Dewiswch y tri (3) pheth y dylem ni ganolbwyntio arnynt fwyaf yn yr ardal siopa ganolog ar y Stryd Fawr i'w wneud yn lle deniadol i drigolion, busnesau ac ymwelwyr.** | **Nifer yr Ymatebwyr** | **Canran (%) yr Ymatebwyr** |
|---|---|---|
| **Ymateb** | **Nifer yr Ymatebwyr** | **Canran yr Ymatebwyr** |
| Coed / Planhigion | **48** | **56** |
| Lle eistedd cyhoeddus | **42** | **49** |
| Bwrdd Dehongli a Gwybodaeth Hanesyddol | **41** | **48** |
| Ardal Digwyddiadau - Llwyfan | **29** | **34** |
| Nodweddion sy'n gysylltiedig â Chlawdd Offa | **23** | **27** |
| Gwaith Celf / Darluniau / Cerfluniau | **20** | **24** |

**Cynllun o Welliannau i Barth Cyhoeddus Stryd Fawr Prestatyn**
**Dyluniad cysyniadol - Adroddiad Cryno o’r Adborth**

# Data ansoddol

Dyma ystod ac amlder y sylwadau a gafwyd gan ymatebwyr sy'n ein helpu i ddeall beth yr hoffent ei weld yng nghanol y Stryd Fawr, yn ogystal â'r hyn y maent yn ei hoffi a'r hyn nad ydynt yn ei hoffi am y dyluniad cysyniadol.

## A oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ei weld yn yr ardal hon?

| Sylw | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Pryderon ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol / angen mwy o Gamerâu cylch caeedig | 6 |
| Ddim am gael unrhyw un o’r newidiadau arfaethedig | 4 |
| Gwella / cynyddu llefydd parcio ar y stryd | 4 |
| Gwell system cynnal a chadw / glanhau strydoedd | 4 |
| Angen cefnogaeth ar ben y Stryd Fawr. Mae wedi ei esgeuluso a busnesau'n ei chael hi'n anodd | 4 |
| Mwy o lefydd croesi a diogelwch ar gyfer cerddwyr / troi’r Stryd Fawr yn barth cerddwyr | 3 |
| Gwella ffenestri siopau gwag gyda gwaith celf | 3 |
| Mae angen mwy o bethau ar gyfer pobl ifanc (11-16 oed) | 3 |
| Marchnad wythnosol (Tref/Ffermwyr) | 2 |
| Cau'r cysylltiad â Rhodfa Clwyd, a ddefnyddir fel llwybr byr i osgoi'r Stryd Fawr | 2 |
| Adeilad Tu Mundo i aros - mae’n haws i gerddwyr groesi | 2 |
| Gwell system gorfodi traffig ar y Stryd Fawr | 2 |
| Gwell golau stryd gyda’r nos | 2 |
| Arwyddion gwell, gan gynnwys arwyddion cyfeirio at lefydd parcio am ddim | 2 |
| Mwy o bresenoldeb yr heddlu | 2 |
| Strwythur uwchben i leihau niwsans gwylanod | 2 |
| Gormod o gelfi stryd mewn rhai llefydd | 2 |
| Peintio siopau’r Stryd Fawr | 2 |

| | |
|---|---|
| Nid oes angen ardal digwyddiadau - mae maes parcio Cookhouse eisoes yn cael ei ddefnyddio ar gyfer digwyddiadau | 2 |
| Mwy o le ar gyfer beicio/cerdded/sgwteri symudedd - llai o ffocws ar gerbydau modur | 1 |
| Amgueddfa hanes Prestatyn | 1 |

| Sylw | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Placiau glas a chydnabyddiaeth swyddogol | 1 |
| Blaenoriaethu llefydd parcio i bobl anabl ar waelod y Stryd Fawr | 1 |
| Symud gorsaf betrol Tesco i rywle arall - gwneud yr ardal hon yn sgwâr y dref ar gyfer digwyddiadau | 1 |
| Dylai ffordd mynediad i'r parc manwerthu ar y gwaelod wrth Holland & Barrett fod yn ffordd allan yn unig - blaenoriaeth i gerddwyr | 1 |
| Harddu blaen siopau o Barnardos i Spar - mae adeiladau o'r 60au yn difetha golwg y dref | 1 |
| Bydd y ffordd ddienw sy'n ymuno â'r Stryd Fawr wrth siop trin gwallt Morgan's yn cael ei hailenwi'n "Clôs Burrows / Burrows Close" gan ei bod gyferbyn â hen safle JT Burrows | 1 |
| Ymestyn cyfnod y parcio am ddim i 4 awr | 1 |
| Tesco ac M&S ac ati i helpu top y Stryd Fawr. Gofyn iddyn nhw roi gostyngiad o 2% i 5% am brynu unrhyw nwyddau Stryd Fawr | 1 |
| Mapiau llwybrau cerdded hawdd eu darllen i lwybr troed Clawdd Offa yn cael eu harddangos mewn gorsafoedd trên a bysiau ar gyfer cerddwyr ac ymwelwyr eraill; | 1 |
| Agor siop dillad / gweithgareddau awyr agored i gefnogi ymwelwyr sy'n cerdded / gwersylla a thrigolion lleol (beicwyr, aelodau Park Run) | 1 |
| Gwella'r olygfa ddiwylliannol e.e. arddangosfeydd a gosodiadau gan artistiaid lleol mewn lleoliadau hygyrch ac ardaloedd â nifer uchel o ymwelwyr fel y llyfrgell, eglwysi, y Stryd Fawr a Pharc Prestatyn | 1 |
| Digwyddiadau i gefnogi ac arddangos cerddorion a dawnswyr lleol (gwelsom gipolwg ar y rhain yng Ngharnifal Prestatyn) | 1 |
| Digwyddiad tebyg i Eisteddfod i ddathlu ein treftadaeth a'n hunaniaeth; | 1 |

| | |
|---|---|
| Dim culhau palmentydd | 1 |
| Cyllid neu ad-daliad ardrethi i fusnesau bach ddefnyddio siopau gwag | 1 |
| Ciosg blwch ffôn coch y tu allan i eglwys y plwyf | 1 |

| **Sylw** | **Nifer yr ymatebion** |
|---|---|
| Pryderon am y cynnig traffig unffordd | 1 |
| Ystyried y gyllideb ar gyfer gwaith cynnal a chadw parhaus | 1 |
| Bydd lleihau’r llefydd parcio yn stopio pobl rhag ymweld â’r dref | 1 |
| Stopio sgwteri trydan ar y Stryd Fawr | 1 |
| Toiledau | 1 |
| Palmentydd nad ydynt ar oleddf - haws ar gyfer cadeiriau olwyn a phramiau | 1 |
| Symud yr orsaf fysiau i ochr arall y ffordd i wella llif y traffig | 1 |
| Coeden Nadolig go iawn | 1 |
| Bwrdd gwybodaeth yn yr orsaf fysiau i ddangos y siopau ar y Stryd Fawr | 1 |
| Bydd parcio am yn ôl i mewn i leoedd parcio ar dop y Stryd Fawr yn broblemus | 1 |
| Goleuadau bach yn y coed a baneri bach yr holl ffordd i fyny’r Stryd Fawr | 1 |
| System draffig unffordd briodol ar draws yr holl Stryd Fawr, nid yn ddatgysylltiedig | 1 |
| Peidio â gwneud Ffordd Tŷ Nant yn ffordd unffordd, bydd yn achosi problemau ar Ffordd Llys Nant i eiddo sy'n ceisio gadael | 1 |
| Tynnu sylw at y llyfrgell a’r gwasanaethau sydd ar gael | 1 |

## Sesiwn Galw Heibio, Sinema Scala

Mynychodd dros 100 o bobl y sesiwn galw heibio a gynhaliwyd yn Sinema Scala ar 18 Medi 2025. Mae'n bwysig nodi nad oedd pob mynychwr wedi gwneud sylwadau yn ystod y dydd, ond gofynnwyd i bawb gwblhau'r ymgynghoriad ar-lein i rannu eu meddyliau.

Derbyniwyd sylwadau a phryderon tebyg i'r rhai a rannwyd yn yr ymgynghoriad yn ystod y sesiwn galw heibio ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol, hygyrchedd a dim gostyngiad mewn parcio ar y stryd, cefnogaeth i fusnesau'r Stryd Fawr ac arwyddion gwell. Bydd yr holl sylwadau ac arsylwadau a rannwyd ar y diwrnod yn helpu i lywio'r dyluniad manwl ynghyd â'r adborth a gasglwyd yn ystod yr ymgynghoriad.

## Y Camau Nesaf

Hoffai’r Cyngor achub ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb am rannu eu meddyliau a’u barn am y dyluniad cysyniadol ar gyfer Stryd Fawr Prestatyn. Bydd hyn yn helpu i lywio'r dyluniad manwl ar gyfer y cynllun.

O ran ymgynghori ac ymgysylltu, ni fyddwn yn gofyn am unrhyw adborth pellach ar hyn o bryd ond byddwn yn ymgynghori ymhellach unwaith y bydd y dyluniad manwl wedi'i gwblhau'r flwyddyn nesaf.